# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2022**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar 1 Mawrth 2022, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Farzina Hussain, Janet Cleverly

**Rhan 2**

**Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol**

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 03/22**

**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

**Penderfyniad**

Gyrrwr AFRAT

Ystyriodd y panel trwyddedu adroddiad y Swyddog a chamau lliniaru’r gyrrwr yn ofalus a theimlai’r Panel Trwyddedu fod y bu’r achos hwn yn achos o ddiofalwch ar ran y gyrrwr. Daeth y Panel i'r casgliad y dylai'r gyrrwr dderbyn rhybudd swyddogol a bod rhaid iddo ailsefyll y Prawf Gwybodaeth ond roeddent yn fodlon bod y gyrrwr yn berson addas a phriodol i gadw'r Drwydded Hurio Preifat gyda Chyngor Dinas Casnewydd.

Gyrrwr IHD

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog a chyflwyniad lliniaru'r gyrrwr i’r Panel Trwyddedu yn ofalus. Teimlai'r Panel Trwyddedu, o ystyried hanes a hyd gwasanaeth y gyrrwr gyda Chyngor Dinas Casnewydd fel deiliad Trwydded Hurio Preifat, y dylai'r gyrrwr dderbyn rhybudd swyddogol a bod yn rhaid iddo ailsefyll y Prawf Gwybodaeth mewn lleoliad un i un a gynhelir o fewn 1 mis.

Gyrrwr AA

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog a chyflwyniad lliniaru'r gyrrwr i’r Panel Trwyddedu yn ofalus. Cytunodd y Panel Trwyddedu fod y gyrrwr yn berson Addas a Phriodol i barhau i yrru gyda Thrwydded Gyrrwr Hurio Preifat gyda Chyngor Dinas Casnewydd ond y dylai

dderbyn rhybudd swyddogol i bwysleisio pwysigrwydd dilyn y polisi adrodd, ac er na fyddai'n ei orfodi, argymhellodd y dylai'r gyrrwr osod teledu cylch cyfyng yn y tacsi.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.
**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

---